# CABINET

Cofnodion cyfarfod HYBRID a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd C.P. Franks a Dr. I.J. Johnson.

## C210 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i’r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

## C211 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

## C212 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C213 POLISI GORFODI TWYLL CORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 11 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd ar hyn.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad ochr yn ochr ag Eitem 11 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD – BOD yr eitem yn cael ei hystyried yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 11 ar yr agenda
a oedd yn ymwneud â'r un mater.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C214 PECYN CYMORTH CYNHWYSIANT TRAWSRYWIOL DRAFFT A DOGFEN GANLLAW AR GYFER YSGOLION A LLEOLIADAU ERAILL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ar 17 Ionawr 2024, ar ôl cael ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 11 Ionawr 2024 a'i drafod yng nghyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol ar 8 Ionawr 2024.

Roedd yr adroddiad wedi'i ddosbarthu ar gyfer sylwadau ac ymgynghori y gwanwyn diwethaf a chafodd y canfyddiadau hynny eu hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu. Roedd yr amser a gymerwyd i ymgynghori wedi dangos pwysigrwydd y cyfnod ymgynghori oherwydd cafodd newidiadau eu gwneud wedyn o ganlyniad i ymatebion a dderbyniwyd gan ffynonellau amrywiol.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet y dylid cymeradwyo Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill diwygiedig Cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys y diwygiadau arfaethedig o fewn Argymhelliad (2) gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, sef:

- Cynnwys rhestr neu dabl sy'n amlinellu'r newidiadau rhwng y pecyn cymorth blaenorol a'r pecyn cymorth newydd (atodiadau A a B yr adroddiad gwreiddiol) gyda'r fersiwn ddiweddaraf.
- Yr angen i roi mwy o bwyslais ar y pecyn cymorth fel canllaw yn hytrach nag adnodd addysgu neu adnodd i ddisgyblion.
- Ystyried cynnwys grwpiau crefyddol amrywiol mewn ymgynghoriadau ar y pecyn cymorth yn y dyfodol ac annog ymatebion pellach gan oedolion a phlant.

Roedd yr Arweinydd yn hapus i eilio’r cynnig a diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion dan sylw am eu gwaith yn cynhyrchu ac yn diwygio'r Pecyn Cymorth.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod trafodaeth wedi bod yn y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ynghylch rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd nad oeddent wedi'u cyhoeddi, ond a oedd ar gael i'r Aelodau a oedd am eu gweld. Roedd hefyd yn edrych ymlaen at weld pa ddogfennaeth a chefnogaeth a fyddai'n dilyn gan Lywodraeth Cymru ar y mater.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill diwygiedig Cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys y diwygiadau arfaethedig o fewn Argymhelliad (2) gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol yn cael eu cymeradwyo, sef:

- Cynnwys rhestr neu dabl sy'n amlinellu'r newidiadau rhwng y pecyn cymorth blaenorol
  a’r pecyn cymorth newydd (atodiadau A a B yr adroddiad gwreiddiol) gyda'r fersiwn ddiweddaraf.
- Yr angen i roi mwy o bwyslais ar y pecyn cymorth fel canllaw yn hytrach nag adnodd addysgu neu adnodd i ddisgyblion.
- Ystyried cynnwys grwpiau crefyddol amrywiol mewn ymgynghoriadau ar y pecyn cymorth yn y dyfodol ac annog ymatebion pellach gan oedolion a phlant.

(2) BOD diolchiadau’n cael eu rhoi i’r swyddogion am eu gwaith yn cynhyrchu ac yn diwygio'r Pecyn Cymorth.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C215 GRŴP CYNGHORI ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023.

Roedd yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod yn cynnwys diweddariadau ynghylch Arfordir Treftadaeth Morgannwg, gwaith hawliau tramwy cyhoeddus, materion a godwyd gan Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr a diweddariad cyllid arfordirol.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi’r cofnodion.

**C216 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams, a Gadeiriodd y Panel, at y cyflwyniad a roddwyd i'r Panel ynghylch y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar a rhai astudiaethau achos rhagorol a drafodwyd gan Aelodau'r Panel. Nodwyd bod Swyddogion ar draws nifer o Gyfarwyddiaethau yn cymryd rhan ac yn gweithio'n gynhyrchiol mewn partneriaeth i gynnig gwell cyfleoedd bywyd i bobl ifanc.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi’r cofnodion.

**C217 CYDBWYLLGOR GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023.

Roedd yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod yn cynnwys Adroddiad Trosolwg a Diweddaru'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR), Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2024/25 ac arbedion cyllideb a fyddai'n cael eu trafod ymhellach mewn Cyfarfod Arbennig Cyd-bwyllgor y GRhR ar 31 Ionawr 2024.

PENDERFYNWYD - Nodi cofnodion cyfarfod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi’r cofnodion.

**C218 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd â’r diben o hysbysu'r Cabinet ynghylch ymarfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 30 Tachwedd 2023.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD y defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi gwybod i'r Cabinet.

**C219 ADRODDIAD DIWEDDARU'R DREF AR LEFELU I FYNY A CHYNLLUN HIRDYMOR (AG/BA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd â'r diben o roi gwybod i'r Cabinet am ddyfarniadau diweddar o gyllid a mentrau a gan Lywodraeth y DU i gefnogi twf economaidd lleol, ynghylch Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a Chyllid Ffyniant Bro; yn ogystal â cheisio awdurdod y Cabinet i gymryd y camau nesaf angenrheidiol i symud y broses o ddarparu'r cyllid yn ei blaen.

Dywedodd yr Arweinydd na fyddai'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â'r cynigion ar gael tan yr hydref nesaf, felly roedd yr adroddiad ar hyn o bryd yn gosod y llwyfan i fwrw ymlaen â materion i baratoi ar gyfer pryd y derbyniwyd cyllid, ac y byddai'r Aelodau'n cael eu diweddaru wrth i faterion fynd rhagddynt.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn edrych ymlaen at ddatblygiad y cynigion.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y diweddariad a'r datblygiadau diweddar mewn perthynas â'r tair cronfa ar wahân wedi'u gweinyddu gan Lywodraeth y DU a ddyfarnwyd i Gyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys methodoleg pob cronfa a oedd yn cael ei gweinyddu gan Lywodraeth y DU, y perthnasau rhwng pob un o'r rheiny a'r cynnydd a oedd ei angen tuag at gyflawni'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a'r gweithdrefnau llywodraethu cysylltiedig yn cael eu nodi.

(2) BOD y camau yr oedd angen eu cymryd i ddatblygu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a datblygu'r gweithdrefnau llywodraethu cysylltiedig yn cael eu nodi.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymryd yr holl

gamau angenrheidiol i ddatblygu ymateb cychwynnol y Cyngor i ddyfarniad Llywodraeth y DU o'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi ar ran Cyngor Bro Morgannwg drwy ddod â phartneriaid lleol ynghyd i sefydlu Bwrdd Tref a dechrau'r broses o osod gweledigaeth hirdymor yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol er mwyn creu Cynllun Hirdymor ar gyfer y Barri.

(4) BOD, ymhellach i argymhelliad 2, adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i roi mwy o fanylion am ddatblygiad y Bwrdd Tref a chynigion i alluogi craffu a herio effeithiol o ran gwaith y Bwrdd Tref ochr yn ochr â'r cynnydd ar y prosiect 'Y Barri - Creu Tonnau'.

(5) BOD y newidiadau arfaethedig i'r prosiect Cronfa Ffyniant Bro (Rownd 3) 'Y Barri - Creu Tonnau' yn cael eu cytuno.

(6) BOD, ymhellach i argymhelliad 5, awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i baratoi (gan gynnwys comisiynu cymorth allanol lle bo angen) uwchgynllun diwygiedig a phecyn cyllid cysylltiedig ac i gytuno ar unrhyw newidiadau prosiect, gan gynnwys; newidiadau i allbynnau prosiect; proffiliau gwario; canlyniadau, unrhyw weithgarwch arall i sicrhau bod y prosiect Cronfa Ffyniant Bro (Rownd 3) Y Barri - Creu Tonnau yn cael ei gyflawni ar ran Cyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid.

(7) BOD, ymhellach i argymhelliad 6, awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i drafod a chytuno ar delerau gyda thirfeddianwyr, sefydliadau partner a chontractwyr perthnasol i sicrhau bod y prosiect Cronfa Ffyniant Bro Rownd 3 yn cael ei gyflawni yn unol â thelerau ac amodau'r cyllid yn amodol ar y trefniadau caffael, comisiynu a chytundebol gofynnol, hyd at gwblhau, yn unol â datblygu a chyflwyno'r prosiect Cronfa Ffyniant Bro (Rownd 3) 'Y Barri - Creu Tonnau'.

(8) BOD, ymhellach i argymhellion 4 a 5, awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i ychwanegu'r cyllid cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r grantiau hynny at y Rhaglen Gyfalaf a hefyd i wneud unrhyw ychwanegu, dileu neu drosglwyddo pellach i'r cynlluniau wrth iddynt symud ymlaen yn ôl yr angen.

(9) BOD yr ymateb ffurfiol gan Lywodraeth y DU i'r dyfarniad Cronfa Ffyniant Bro (Rownd 3) diwygiedig yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet maes o law ynghyd â threfniadau rheoli cyllideb a llywodraethu manwl mewn perthynas â chyflawni'r prosiect.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i’r Cabinet am y sefyllfa bresennol ynghylch yr amrywiol gyhoeddiadau cyllid diweddar gan Lywodraeth y DU a'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud i fodloni'r gofynion a oedd yn angenrheidiol i gael mynediad at y cyllid a oedd yn cael ei ddarparu gan y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi.

(2) Nodi'r camau yr oedd angen eu cymryd i ddatblygu'r gwaith o gyflawni a bodloni'r gofynion a oedd yn angenrheidiol i gael mynediad at y cyllid a oedd yn cael ei ddarparu gan y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi.

(3) Sefydlu'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i sicrhau bod y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi yn cael ei gyflawni, yn unol â gofynion y cynllun cyllid.

(4) Rhoi gwybod i’r Cabinet am gynnydd a sicrhau her a chraffu effeithiol ar y prosiectau.

(5) Ceisio awdurdod i gytuno ar y newidiadau arfaethedig i'r cais Cronfa Ffyniant Bro Rownd 3 gwreiddiol (rownd mis Mehefin 2022) i sicrhau y gellid cyflawni’r cynllun o fewn y cyllid rownd 3 a ddyfarnwyd.

(6) Galluogi paratoi cynllun ac amserlen gyflawni’r prosiect a sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni o fewn y ffenestr cyllid a nodwyd ar hyn o bryd (diwedd mis Mawrth 2026).

(7) Cael awdurdod i drafod a chytuno ar delerau â thirfeddianwyr, sefydliadau partner, ymgynghorwyr a chontractwyr perthnasol i sicrhau bod y prosiect Cronfa Ffyniant Bro Rownd 3 yn cael ei gyflawni.

(8) Sicrhau rheolaeth ariannol briodol o'r prosiectau a oedd yn cael eu cyflawni drwy'r dyfarniadau.

(9) Adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gytundeb Llywodraeth y DU i'r newidiadau arfaethedig o ran darparu’r dyfarniad Cronfa Ffyniant Bro (Rownd 3) ac unrhyw gyngor a dderbyniwyd gan y corff cyllid.

**C220 POLISI GORFODI TWYLL CORFFORAETHOL (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ynghyd â'r cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a restrwyd dan Eitem 4 ar yr agenda. Ei ddiben oedd rhoi Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol drafft ("y Polisi") i'r Cabinet yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr adroddiad ac wedi cynnig diwygio adran 4 o'r Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol drafft a oedd yn ymwneud ag ymchwiliadau i gynnwys sylwebaeth y dylai ymchwiliadau gael eu

cynnal neu eu harwain gan Swyddogion gyda'r hyfforddiant a/neu'r profiad priodol, a chytunwyd ar hyn.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r cyfeiriad a'r holl faterion a goblygiadau ynddynt

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Adran 4 o'r Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol drafft a oedd yn ymwneud ag ymchwiliadau yn cael ei diwygio i gynnwys sylwebaeth y dylai ymchwiliadau gael eu cynnal neu eu harwain gan Swyddogion gyda'r hyfforddiant a/neu'r profiad priodol, a chytunwyd ar hyn.

(2) BOD y Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol yn Atodiad A yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar y diwygiadau ym Mhenderfyniad (1).

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i ddiwygio'r Dirprwyaethau Swyddogion yn y Cyfansoddiad yn unol â pharagraffau 2.4 a 2.8.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod proses y Cyngor o wneud penderfyniadau am gosbau'n llym, yn gadarn, yn dryloyw ac yn ystyried budd y cyhoedd yn briodol.

(3) Diweddaru'r Cynllun Dirprwyaethau Swyddogion a darpariaethau perthnasol o fewn y Cyfansoddiad presennol i adlewyrchu'r newidiadau uchod.

**C221 GWAREDU LLOG RHYDD-DDALIADOL YN 119 BROAD STREET, Y BARRI (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd â'r diben o geisio cymeradwyaeth y Cabinet i waredu'r buddiant rhydd-ddaliadol yn 119 Broad Street, Y Barri i Ganolfan Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.

Dywedodd yr Arweinydd fod y gwaith a wnaed gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CCB) Caerdydd a'r Fro wedi bod yn hanfodol i'n gallu i gefnogi trigolion Bro Morgannwg. Roedd gwaith partneriaeth cryf iawn ar waith rhwng y Cyngor a'r CCB ac nid oedd angen yr eiddo ar y Cyngor mwyach ac argymhellwyd ei waredu.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y buddiant rhydd-ddaliadol yn 119 Broad Street, Y Barri yn cael ei ddatgan fel un nad oedd ei angen ar y Cyngor a'i fod yn cael ei waredu i denantiaid CCB Caerdydd a'r Fro.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 i gytuno ar delerau ac amodau ar gyfer gwaredu'r buddiant rhydd-ddaliadol yn yr eiddo fel y dangosir yn goch ar y cynllun yn Atodiad A drwy'r dulliau mwyaf priodol mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn amodol ar waredu ar brisiad y farchnad.

(3) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael eu hawdurdodi i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol briodol a oedd ei hangen i waredu'r buddiant rhydd-ddaliadol yn yr eiddo ar yr amser briodol.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Datgan nad oedd angen y safle mwyach gan nad oedd angen yr eiddo mwyach at ddibenion llety.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn cael yr ystyriaeth orau mewn perthynas â’r eiddo yn unol â'i rwymedigaethau statudol ac ymddiriedol.

(3) Ffurfioli'n gyfreithiol waredu'r eiddo i gael derbyniad cyfalaf a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gyfrannu at adnewyddu asedau ar weddill asedau adeiladau’r Cyngor.

**C222 CAFFAEL EIDDO PRESWYL YM MRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a oedd â’r diben o geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gaffael hyd at dri eiddo preswyl ym Mro Morgannwg i'w defnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd yr ystyriaethau llawn wedi’u nodi mewn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda a gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr adroddiadau ar y cyd.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a’i ystyried mewn cysylltiad ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar agenda’r cyfarfod.

(2) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei gytuno mewn perthynas ag argymhellion yn yr adroddiad Rhan II.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi’r adroddiadau Rhan I a Rhan II i gael eu hystyried gyda'i gilydd.

(2) Sicrhau y gallai'r Cyngor barhau i gyflawni'r cynllun.

**C223 MATER Y MAE’R CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS (RHAN I) –**

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

**C224 CANOLFAN FENTER BRO MORGANNWG (DA/LC) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) — (Ar fyrder oherwydd yr angen i sicrhau y gellir gweithredu’r opsiwn strategol a ddewiswyd o fewn yr amserlenni disgwyliedig.)**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a oedd â’r diben o ystyried opsiynau strategol ar gyfer Canolfan Fenter Bro Morgannwg a chael awdurdod ar gyfer ffordd ymlaen.

Roedd y materion allweddol fel y disgrifiwyd ym mharagraffau 2.2 i 2.6 yr adroddiad yn dangos y buddsoddiad sylweddol a oedd ei angen er mwyn i'r Ganolfan fod o safon osodadwy.

Roedd yr ystyriaethau llawn wedi’u nodi mewn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda a gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr adroddiadau ar y cyd.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr Opsiynau Strategol ar gyfer Canolfan Fenter y Fro yn cael eu nodi.

(2) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a’i ystyried mewn cysylltiad â’r adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

(3) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei gytuno mewn perthynas ag argymhellion yn yr adroddiad Rhan II.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Llywio penderfyniad y Cabinet.

(2) Galluogi’r adroddiadau Rhan I a Rhan II i gael eu hystyried gyda'i gilydd.

(3) Sicrhau y gellid deddfu'r opsiwn strategol a ddewiswyd o fewn yr amserlenni disgwyliedig.

**C225 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C226 CAFFAEL EIDDO PRESWYL YM MRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a oedd â’r diben o geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gaffael hyd at dri eiddo preswyl ym Mro Morgannwg i'w defnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nododd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2027 yr angen am eiddo preswyl ychwanegol ym Mro Morgannwg. Roedd llety â chymorth ym Mro Morgannwg yn llawn ac roedd angen darpariaeth ychwanegol.

Byddai'r Cyngor yn ceisio cyllid allanol drwy Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru, i brynu ac adnewyddu'r tri eiddo i safon briodol.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y broses o gaffael hyd at dri eiddo preswyl at ddibenion cartrefu Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches ym Mro Morgannwg yn cael ei chymeradwyo.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarwyddo Tîm Ystadau ac Uned Rheoli Prosiectau'r Cyngor i

gynnal chwiliad manwl o eiddo ac i gychwyn trafodaethau i gaffael eiddo y bernir eu bod yn briodol i fodloni anghenion y gwasanaeth (yn amodol ar gyllid).

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarwyddo Tîm Ystadau ac Uned Rheoli Prosiectau’r Cyngor i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect, gan gynnwys caffael yr eiddo ac unrhyw waith adnewyddu/uwchraddio a oedd ei angen ar yr eiddo i sicrhau eu bod yn bodloni’r safon briodol, yn amodol ar gyllid.

(4) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarwyddo'r Tîm Ystadau a'r Uned Rheoli Prosiectau i gaffael a phenodi tîm dylunio ac ymgynghorwyr eraill fel y bo'n ofynnol er mwyn cyflawni’r prosiect, yn amodol ar gyllid.

(5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer y prosiect yn rhinwedd naill ai Rheoliad 3 neu Reoliad 4 Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (fel y'i diwygiwyd) os oes angen, ac unrhyw geisiadau statudol angenrheidiol eraill (er enghraifft, rheoliadau adeiladu).

(6) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno a derbyn ceisiadau grant i sicrhau cyllid tuag at gost y prosiect.

(7) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Swyddog A151 i baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i hwyluso'r gwaith o gyflawni’r prosiect.

(8) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 i gytuno ar gyllideb y prosiect hwn, gan gynnwys derbyn unrhyw grantiau allanol, ac i wneud unrhyw newidiadau dilynol angenrheidiol i'r Rhaglen Gyfalaf.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cael cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer y prosiect.

(2 a 3) Cael awdurdod i brynu buddiant rhydd-ddaliadol hyd at dri eiddo, a galluogi'r eiddo i gael eu hadnewyddu fel y byddant yn bodloni’r safonau priodol.

(4) Cael awdurdod i gaffael a phenodi'r tîm dylunio ac ymgynghorwyr eraill fel sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect.

(5) Cael awdurdod i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer y prosiect.

(6) Cael awdurdod i gyflwyno a derbyn ceisiadau grant ar gyfer y prosiect.

(7) Cael awdurdod i’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i hwyluso'r gwaith o gyflawni’r prosiect.

(8) Sicrhau bod y cyllid cyfalaf a'r grantiau yn cael eu monitro a'u hadrodd yn briodol.

**C227 MATER Y MAE'R CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS (RHAN II) –**

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

**C228 CANOLFAN FENTER BRO MORGANNWG (DA/LC) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 16) -**
**(Ar fyrder oherwydd yr angen i sicrhau y gellir gweithredu'r opsiwn strategol a ddewiswyd o fewn yr amserlenni disgwyliedig.)**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a oedd â'r diben o ystyried opsiynau strategol ar gyfer Canolfan Fenter Bro Morgannwg a chael awdurdod ar gyfer ffordd ymlaen.

Roedd gwaith wedi digwydd i weithio'n agos gyda'r tenantiaid i ddod o hyd i safle a storfa amgen addas a oedd wedi bod yn llwyddiannus.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr Opsiynau Strategol ar gyfer Canolfan Fenter y Fro yn cael eu nodi.

(2) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a'i ystyried mewn cysylltiad a'r adroddiad Rhan I ar yr agenda.

(3) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei gytuno mewn perthynas ag argymhellion yn yr adroddiad Rhan II.

(4) BOD, ar ôl ystyried yr Opsiynau Strategol, y Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, y Swyddog A151, y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael awdurdod i fwrw ymlaen ag opsiwn 1 yr adroddiad i gytuno ar delerau ac amodau ar gyfer ildio les y Cyngor ar gyfer Canolfan Fenter y Fro mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy.

(5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddrafftio, cwblhau a gweithredu unrhyw ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i gefnogi’r broses o ildio’r les.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Llywio penderfyniad y Cabinet.

(2) Galluogi’r adroddiadau Rhan I a Rhan II i gael eu hystyried gyda'i gilydd.

(3) Sicrhau y gellid deddfu'r opsiwn strategol a ddewiswyd o fewn yr amserlenni disgwyliedig.

(4) Galluogi ildio’r les tir ar gyfer Canolfan Fenter y Fro.

(5) Galluogi cytuno ar delerau a chostau cysylltiedig ildio’r les tir.